

# Caerdydd 2020

## Gweledigaeth newydd ar gyfer addysg a dysgu yng Nghaerdydd






gwnewch wahaniaeth

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Gweledigaeth newydd i addysg a dysgu yng Nghaerdydd | 4 |
| Cyd-destun | 5 |
| Canlyniadau Dymunol | 8 |
| Nodau | 9 |
| Nod: Canlyniadau gwych i bob dysgwr | 10 |
| Nod: Gweithlu o ansawdd uchel | 12 |
| Nod: Amgylcheddau dysgu sy’n addas ar gyfer yr 21ain ganrif | 14 |
| Nod: System ysgol sy’n gwella ei hun | 16 |
| Nod: Ysgolion a Chaerdydd mewn partneriaeth | 18 |
| Symud ymlaen | 20 |
| Atodiad Un – Mesurau Perfformiad | 21 |





# Rhagair

Mae addysg yng Nghaerdydd yn gwella. Rydyn ni'n falch iawn o weld bod addysg yn gwella ar hyd a lled y ddinas fel y gwelir yn y gwelliannau sylweddol o ran y safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddysgwyr ers 2013. Mae gwelliannau ar draws bob cam o addysg a'r ymrwymiad cynyddol i weithio gyda'n gilydd i gynnig y cyfleoedd gorau posibl i'n plant a'n pobl ifanc yn galonogol iawn.

Wedi dweud hynny, rydyn ni'n gwybod fod gennym lawer i'w wneud i gyflawni'r canlyniadau yr hoffem eu gweld ym Mhrifddinas Cymru. Mae angen addysg ragorol yn gyson ar Gaerdydd, er mwyn i bob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i ffynnu a llwyddo.

Rydyn ni eisiau gweld ein dysgwyr agored i niwed yn cyflawni mwy; yn cael cynnig cymorth priodol a chwricwlwm sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Rydyn ni hefyd eisiau mwy o gyfleoedd i'n disgyblion mwyaf galluog i'w galluogi i gystadlu â chyfoedion ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Ac, yn y pen draw, rydyn ni eisiau i'n pobl ifanc bontio'n llwyddiannus o addysg statudol i addysg barhaus, hyfforddiant a'r byd gwaith.

Mae perthynas agos rhwng cryfder ein hysgolion a lles economaidd yr ardal ac er bod twf economaidd y dyfodol yn peri heriau, mae hefyd yn cynnig yr amodau delfrydol ar gyfer newid ac arloesi. Mae gennym uchelgeisiau clir ynghylch ein dyfodol a thrwy'r strategaeth hon, rydym wedi gosod ein gweledigaeth a'n nodau i hyrwyddo a chyflawni newid. Rydym am i'n harweinwyr a llywodraethwyr fod ar y blaen wrth arwain ein siwrne o welliant a datblygu eu timau staff wrth i ni symud ymlaen.

Mae bob un ohonom wedi ymrwymo i chwarae ein rhan o ran cyflawni'r system addysg ragorol sydd ei hangen ar Gaerdydd.

Y Cynghorydd Phil Bale - Arweinydd, Cyngor Dinas Caerdydd

Robert Hill - Cadeirydd Bwrdd Datblygu Addysg Caerdydd

Nic Naish - Cadeirydd cynhadledd penaethiaid cynradd

Steve Jones - Cadeirydd cynhadledd penaethiaid uwchradd

Lorraine Felstead - Cadeirydd cynhadledd penaethiaid ysgolion arbennig

Alun Evans - Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Caerdydd

# Cyflwyniad

Mae system addysg gref yn sylfaen allweddol ar gyfer cymunedau cydlynol a bywiog ac economi a chymdeithas ffyniannus. Disgwylir i Gaerdydd, prifddinas Cymru, fod yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf fod yn y DU dros y 18 mlynedd nesaf. Mae wedi bod yn ddinas ryngwladol am gryn amser, yn masnachu gyda'r byd, ac yn croesawu pobl, syniadau ac arloesedd o fannau eraill. Mae ei heconomi wedi newid yn gyfan gwbl ac yn datblygu mewn ffyrdd newydd. Mae ei phoblogaeth yn amrywiol iawn, a siaredir dros 100 o ieithoedd yma. Mae'n ddinas sy'n falch o fod yn ddwyieithog ac sydd wedi ymrwymo i sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn ffynnu.

Mae system addysg Caerdydd wedi bod yn ymateb i'r newidiadau hyn. Gyda sector prifysgol cryf, a chyflogwyr mawr yn y rhanbarth, Caerdydd sydd â'r ail gyfradd uchaf o ddinasyddion sydd wedi'i haddysgu i lefel gradd o unrhyw ddinas yn y DU, sy'n denu a chadw gweithlu medrus iawn. Yn y gorffennol mae rhai agweddau ar y system addysg statudol wedi bod yn tanberfformio, gyda gwahaniaethau amlwg o ran canlyniadau dysgwyr, a chyfleoedd bywyd, mewn gwahanol rannau o'r ddinas. Mae hyn wedi bod yn newid yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r gwelliannau yn glir ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod Caerdydd yn cael addysg ragorol yn gyson.

Mae ein strategaeth ddiweddar wedi bod yn canolbwyntio ar gryfhau partneriaethau i sicrhau bod yr holl ysgolion yn diwallu'r safonau gofynnol, a lle bo angen, yn cymryd camau os nad dyna'r achos. Rydym wedi sicrhau bod data ar berfformiad ar gael ac yn glir fel bod ysgolion a'u cymunedau yn gwybod pa mor dda mae plant a phobl ifanc yn dysgu. Rydym eisiau newid ein ffocws i alluogi ysgolion i arwain gwelliant ar draws y system, gan symud i ffwrdd o ddiwylliant o ddibyniaeth, ac annog arloesedd o ran addysgu ac arwain. Mae gan Gaerdydd lawer o sefydliadau a busnesau cenedlaethol a rhyngwladol cryf, mae partneriaethau cryfach wedi'u hadeiladu i sicrhau bod pob ysgol yn cyfrannu at ac yn gysylltiedig ag egni a deinamigrwydd Caerdydd.

Mae ein strategaeth wedi bod yn gwneud gwahaniaeth. Gallwn weld y gwahaniaeth o ran:

- Gwella canlyniadau i ddysgwyr a fesurir drwy ganlyniadau prawf ac arholiadau.
- Mwy o ddysgwyr yn cymryd rhan gadarnhaol mewn dysgu a fesurir gan bresenoldeb gwell, llai o waharddiadau a gostyngiad o ran nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl ysgol.
- Newid arferion proffesiynol, gydag ysgolion yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddatblygu cysondeb gwell ar draws y system a mwy o benaethiaid yn cymryd rolau arwain ehangach.

Rydym yn wynebu heriau parhaus:

- Gweithredu trefniadau cwricwlwm ac asesu newydd.
- Cau'r bylchau o ran cyfleoedd a chyflawni.
- Recriwtio, datblygu, cadw a gwerthfawrogi'r athrawon a'r staff cymorth gorau.
- Nodi, datblygu a lleoli arweinwyr talentog.
- Dyfnhau ac ymestyn partneriaethau.
- Diwallu gofynion newidiol cyflogwyr yn yr economi leol.
- Sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau bywyd sydd eu hangen i lwyddo o ran cyflawni eu huchelgeisiau.
- Defnyddio cyllid ac adnoddau'n effeithiol o ystyried y pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus yn y dyfodol agos.
- Creu diwylliant o arloesedd sy'n tynnu ar adnoddau sefydliadau, cwmnïau a chymunedau ar draws y ddinas.
- Darparu lleoedd ysgol ychwanegol i ddiwallu'r twf cyflym iawn o ran y boblogaeth yn y rhanbarth.

Mae angen newid cyflymder, a defnyddio dulliau gwahanol sy'n adeiladu ar yr arferion gwell mewn ysgolion i gyflawni canlyniadau rhagorol yn gyson. Mae'r strategaeth hon yn nodi ein gweledigaeth a rennir ar gyfer y rôl y mae addysg yn ei chwarae o ran datblygiad pellach cymunedau bywiog ac economi ffyniannus yng Nghaerdydd. Mae'n adnewyddu ymrwymiad pawb sy'n rhannu'r weledigaeth hon i gyfres glir o nodau a chamau i'w cyflawni.

**“Drwy ganolbwyntio ar y pum prif nod a amlinellir yn 'Caerdydd 2020' byddwn yn gwella cyrhaeddiad addysgol yng Nghaerdydd ac yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i lwyddo.”**



## Gweledigaeth newydd i addysg a dysgu yng Nghaerdydd

# Gweledigaeth

Mae'r holl blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yn mynychu ysgol wych ac yn datblygu'r wybodaeth, sgiliau a nodweddion sy'n eu harwain i ddod yn ddinasyddion llwyddiannus, economaidd gynhyrchiol a chysylltiedig.

# Gwerthoedd

Rydym wedi ymrwymo i:

- Gefnogi datblygiad dysgwyr hapus a gwydn, gyda ffocws ar gyrhaeddiad academaidd a lles personol.
- Cyfle cyfartal a hyrwyddo llwyddiant a chyfleoedd bywyd bob plentyn drwy leihau'r bwlch o ran canlyniadau addysg.
- Gweithio'n agored ac ar y cyd gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth, arferion a dysgu.
- Codi dyheadau'r holl blant a phobl ifanc a'n disgwyliadau o'r hyn y gallant ei gyflawni, beth bynnag fo'u cefndir neu angen.
- Croesawu amrywiaeth, gan ddangos gwydnwch a pharch at ein gilydd, ein cymunedau a'n hamgylchedd.
- Dathlu llwyddiant disgyblion, ymarferwyr ac ysgolion ar bob cyfle.

# Datganiad Cenhadaeth

Trwy addysg a dysgu rhagorol i bob plentyn a pherson ifanc, cryfhau ffyniant economaidd, lles a chydlyniant cymdeithasol yng Nghaerdydd.


# Y Cyd-destun

Mae Caerdydd 2020 yn gysylltiedig â chyd-destun 'Strategaeth Beth sy'n Bwysig 2010 – 2020' Caerdydd sy'n ceisio sicrhau bod Caerdydd yn un o'r llefydd gorau i fyw, gweithio ac ymweld ag ef - 'y ddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop erbyn 2020'.

Dros yr 20 mlynedd nesaf disgwylir i Gaerdydd fod yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain. Mewn ymateb i'r twf hwn, mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd, sy'n ymwneud â'r cyfnod 2006 i 2026, yn amlinellu sut y bydd y ddinas yn gwneud darpariaeth ar gyfer 41,100 o gartrefi newydd a 40,000 o swyddi newydd. Bydd llawer mwy o bobl rhwng 30 a 50, mwy o blant ysgol a mwy o bobl dros 65 oed. Rhagwelir cynnydd o 25 % mewn plant oed ysgol sy'n golygu y bydd angen mwy o ysgolion a mwy o athrawon arnom yng Nghaerdydd.

Mae'r dosbarthiad poblogaeth yn ôl grŵp oedran yng Nghaerdydd yn cyferbynnu'n llwyr â gweddill De-ddwyrain Cymru. Mae poblogaeth myfyrwyr Caerdydd yn arwyddocaol iawn gan ei bod yn cynrychioli dros 10 % o breswylwyr y ddinas. Mae'r mwyafrif o fyfyrwyr llawn amser rhwng 18 a 29 ac yng Nghaerdydd mae bron i chwarter (23.5 %) o'r cyfanswm poblogaeth yn dod dan y grŵp oedran hwn o gymharu â 14.8 % ar gyfer gweddill De-ddwyrain Cymru.

Twf poblogaeth yn rhai o ddinasoedd y DU (2014-34)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru/SYG/NRS rhagfynegiadau poblogaeth

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 15.3 % o boblogaeth Caerdydd o grŵp ethnig heb fod yn wyn, sy'n gyfwerth â bron i ddau ran o bump (39.2 %) o'r cyfanswm poblogaeth ethnig heb fod yn wyn yng Nghymru. Siaredir dros 118 o wahanol brif ieithoedd ledled y ddinas.

Yn 2014/15, roedd mwy nag un rhan o bump (22.2 %) o ddisgyblion 5-15 oed yng Nghaerdydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim, o gymharu â 18.8 % yng Nghymru. (Llywodraeth Cymru).

Mae'n glir bod dinas Caerdydd yn cynnig cyfleoedd gwych a heriau. Mewn ymateb i gyflawni'r weledigaeth o fod y ddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop, bydd Strategaeth Beth sy'n Bwysig Caerdydd yn parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau i ddinasyddion mewn saith prif faes:

- Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach;
- Mae gan Gaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy;
- Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;
- Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu ac yn llwyddo;
- Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu llawn botensial;
- Mae Caerdydd yn lle da i fyw, gweithio a chwarae;
- Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol.

Mae Caerdydd 2020 yn gwneud cyfraniad sylweddol i 'Beth sy'n Bwysig', yn enwedig i'r canlyniad dymunol bod Pobl yng Nghaerdydd yn cyflawni eu llawn botensial.

Darperir rhan allweddol o Caerdydd 2020 trwy 'Ymrwymiad Caerdydd', a lansiwyd yn ddiweddar, sy'n ceisio sicrhau bod yr holl bobl ifanc yng Nghaerdydd yn cael y cymorth, dewisiadau a chyfleoedd i bontio o addysg statudol i addysg barhaus, cyflogaeth neu hyfforddiant.


## Lle ydyn ni nawr?

### Cyrhaeddiad Addysgol

- Yn y **Cyfnod Sylfaen**, gwnaeth y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir (5+) yn y Cyfnod Sylfaen wella o 78.7 % yn 2012 i **86.7%** yn 2015 sydd ychydig dan gyfartaledd Cymru o 86.8 %.
- Yng **Nghyfnod Allweddol 2**, cyflawnodd **87.8%** o ddisgyblion yng Nghaerdydd y lefel disgwyliedig (L4+) yn y dangosydd pwnc craidd yn 2015, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 87.7 %.
- Yng **Nghyfnod Allweddol 3**, cyflawnodd **83.4%** o ddisgyblion yng Nghaerdydd y dangosydd pwnc craidd yn 2015, 83.9 % oedd cyfartaledd Cymru.
- Yng **Nghyfnod Allweddol 4,** mae ffigurau 2015 yn dangos bod Caerdydd wedi gweld cynnydd o ran y gyfradd o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 2 (5 TGAU A* - C, gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) o 44.34 % i **59.30%** dros y chwe blynedd diwethaf, gyda gwelliant o 9.4 % rhwng 2013 a 2015. Mae perfformiad presennol yn uwch na chyfartaledd Cymru o 57.95 %.
- Yng **Nghyfnod Allweddol 4** yn 2015, cyflawnodd **32.23%** o ddisgyblion yng Nghaerdydd sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, y trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU A* - C mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg, o gymharu â **66.52%** o ddisgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ar y lefel hon yn uwch na chyfartaledd Cymru o 31.63 %.
- Ers 2010, cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y **disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael ysgol** a ddynodir fel **Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant** yng Nghaerdydd, o 8.8 % i **4.3%** yn 2014. (4.3 % yw 152 o bobl ifanc). Er bod y gwelliant hwn ar gyfradd gyflymach nag awdurdodau lleol eraill, mae angen gostyngiadau pellach. Roedd Caerdydd yn yr 21ain safle o 22 awdurdod lleol yng Nghymru.
- Dros y 4 blynedd flaenorol, mae **nifer y disgyblion blwyddyn 13** a ddynodir fel **Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant,** wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru. Yn 2015, ni aeth **2.96%** o ddisgyblion blwyddyn 13 ymlaen i addysg barhaus, cyflogaeth neu hyfforddiant. (40 o bobl ifanc).
- Ym mis Mawrth 2016, roedd **673 (8.6%)** o 7,806 o bobl ifanc 16-18 oed yng Nghaerdydd oedd wedi cofrestru gyda Gyrfa Cymru wedi'u dynodi fel Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant.

**Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, fel y penderfynir gan Asesiad o Athrawon**

*Ffynhonnell: Uned Ddata Cymru (2015)*




**Canran y disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd drothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C yn y Gymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg**

*Ffynhonnell: Uned Ddata Cymru (2015)*



## Ffactorau Economaidd Cymdeithasol

- Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2015, roedd y gyfradd **cyflogaeth ar gyfer y boblogaeth 16-64 oed** yng Nghaerdydd (68.0 % ) yn is na'r ffigur cyfwerth ar gyfer Cymru (70.3 % ). Hefyd, roedd y gyfradd diweithdra yn uwch yng Nghaerdydd (7.5 % ) na Chymru (6.0 % ). (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, SYG)
- Roedd y **gyfradd gweithgarwch economaidd** i'r rheiny **rhwng 16 a 64 oed yng Nghaerdydd (73.1%)** ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (74.9 % ). Fodd bynnag, pan fo myfyrwyr yn cael eu heithrio o'r cyfrifiad, mae cyfradd anweithgarwch economaidd Caerdydd (19.0 % ) yn is na chyfradd Cymru (21.0 % ). (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, SYG)
- Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar gymudo yn dangos y niferoedd uchel o gymudwyr i Gaerdydd o du allan i'w ffiniau awdurdod lleol. Mae tua 61,700 yn cymudo i mewn i Gaerdydd o ardaloedd awdurdodau lleol cymdogol Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chasnewydd, tra bo 22,100 ychwanegol yn cymudo i'r ddinas yn ddyddiol o bellach.
- Roedd 200,400 o bobl yn gweithio yng Nghaerdydd yn 2014, gyda'r sectorau mwyaf yn Iechyd (13.9 % ), Manwerthu (10.8 % ), a Gwasanaethau Gweinyddu a Chymorth Busnes (10.0 % ). (Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth, ONS)
- Mae adroddiad diweddar ar alw a chyflenwad y farchnad lafur gan Bartneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesedd De-ddwyrain Cymru (LSKIP) yn nodi bod y rhanbarth yn dechrau ar gyfnod pum mlynedd heriol iawn. Mae'r Fargen Ddinesig ar gyfer Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, a sicrhaodd ddatblygiad ar draws y tri Pharth Menter yn Ne-ddwyrain Cymru yn cynnwys Maes Awyr Caerdydd, a'r cysylltiadau agos a sefydlwyd rhwng Dinasoedd Mawr y Gorllewin, yn ogystal â buddsoddiad seilwaith o £10 biliwn, yn cynrychioli cyfle enfawr yn ogystal â her.
- Roedd yr adroddiad LSKIP yn nodi bod modelau a chymwysterau dysgu a hyfforddi traddodiadol angen cael eu newid yn gyfan gwbl i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen. Bydd darparu sgiliau hanfodol allweddol mewn rhifedd, llythrennedd, TGCh a chyflogadwyedd i bobl ar draws yr ystod oedran yn helpu i adeiladu cronfa/cofrestr cyflogeion sy'n canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd â lefelau uchel o ddiweithdra. Mae angen rhoi sylw i ddiffygion o ran sgiliau mewn meysydd fel gweithgynhyrchu, twristiaeth, gwasanaethau ariannol, addysg a gweinyddu cyhoeddus, lle mae cyflogwyr wedi mynegi anawsterau o ran recriwtio.
- Mae negeseuon clir o ran llythrennedd digidol, sy'n hanfodol i gyflogadwyedd.
  Bydd angen sgiliau digidol rhagorol ar gyfer 90 % o swyddi newydd. Mae gwella llythrennedd digidol yn rhan hanfodol o ddatblygu graddedigion cyflogadwy. (JISC,2011)

## Diwygio Addysg yng Nghymru

Mae Caerdydd 2020 wedi'i osod yng nghyd-destun agenda diwygio addysg cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

- Mae'r weledigaeth a nodwyd gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adolygiad Successful Futures, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn nodi sylfeini cadarn ar gyfer dull newydd o ran y cwricwlwm ac asesu sy'n gwbl gynhwysol. Mae Donaldson yn pwysleisio'r angen am gwricwlwm a fyddai'n paratoi plant a phobl ifanc yng Nghymru yn well i ffynnu a bod yn llwyddiannus mewn byd sy'n newid yn gyflym. Mae'n amlygu'r angen am gwricwlwm symlach a mwy cysylltiedig a fyddai'n darparu ehangder, galluogi dyfnder dysgu ehangach, sicrhau cynnydd gwell, defnyddio amser yn fwy creadigol a rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau.
- Nododd Qualified for Life weledigaeth ar gyfer system addysg lle mae pob plentyn a pherson yn elwa o addysgu a dysgu rhagorol a lle mae eu potensial yn cael ei ddatblygu'n weithredol.
- Mae Bargen Newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu Addysg, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn nodi cynlluniau ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol y rheiny sy'n gweithio mewn ysgolion. Mae hwn wedi'i ddylunio i gefnogi athrawon, arweinwyr a staff cymorth gyda'u datblygiad proffesiynol gydol eu gyrfaoedd.
- Yn ogystal â'r Fargen Ddinesig, mae'r adroddiad Teaching Tomorrow's Teachers a gynhyrchwyd gan yr Athro John Furlong, yn amlygu'r angen gwirioneddol i ddiwygio hyfforddiant athrawon cychwynnol yng Nghymru os ydym am godi safonau a darparu ein rhaglen ddiwygio uchelgeisiol.

# Canlyniadau Dymunol

O ganlyniad i'n gwaith dros y pum mlynedd nesaf rydym yn ceisio cyflawni canlyniadau uchelgeisiol i blant a phobl ifanc Caerdydd.

- Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg briodol o safon uchel sy'n diwallu eu hanghenion unigol.
- Bydd cyrhaeddiad addysgol ar ddiwedd pob cyfnod allweddol y gorau yng Nghymru ac yn gyfartal i berfformiad y chwartel uchaf yn ninasoedd craidd y DU.
- Bydd pob plentyn yn gadael yr ysgol gynradd yn llythrennog ac yn rhifog yn unol â'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran.
- Bydd disgyblion o deuluoedd incwm isel yn cyflawni'r un lefel â'u cyfoedion – byddwn yn cau'r bwlch cyrhaeddiad.
- Bydd plant a phobl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu manteisio ar system well sydd wedi'i dylunio i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hasesu, a bod y ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny yn cael ei darparu mewn ffordd fwy cydweithredol, cyson a theg.
- Bydd pob person ifanc yn cael cymhwyster cydnabyddedig ar ddiwedd y cyfnod addysg statudol.
- Bydd yr holl bobl ifanc yn cwblhau'r cyfnod addysg statudol gyda sgiliau am oes ac yn pontio'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae'r holl bobl ifanc yn ddiogel ac mae eu lles emosiynol yn uchel.
- Bydd plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawl i gyfrannu ac i'w barn gael ei chlywed, ac yn cymryd rhan mewn penderfyniadau o ran polisïau a gwasanaethau addysg sy'n effeithio ar eu bywydau.



# Nodau

I gyflawni'r dyheadau hyn ein prif nodau yw:

- **Canlyniadau gwych i bob dysgwr.**

Mae gennym ddisgwyliadau uchel i'n holl ddysgwyr ac rydym yn sicrhau cyrhaeddiad uchel a lles cadarnhaol i bawb. Mae rhwystrau i ddysgu yn cael eu goresgyn i sicrhau nad oes unrhyw blentyn neu berson ifanc yn cael ei 'adael y tu ôl'. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg a diddorol. Mae ffocws ar addysgu o ansawdd uchel wrth wraidd bob ysgol. Defnyddir asesiadau i ddatblygu dysgu ac i sicrhau atebolrwydd agored a chlir yn y system addysg.

- **Gweithlu o ansawdd uchel**

Rydym yn denu'r bobl orau i arwain a gweithio yn ein hysgolion a'n sefydliadau addysg. Rydym yn recriwtio, cadw a datblygu staff ar bob lefel ac yn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o athrawon, ymarferwyr ac arweinwyr yn gweithio yng Nghaerdydd.

- **Amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif**

Mae nifer o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc sy'n diwallu anghenion poblogaeth gynyddol a newidiol Caerdydd. Mae ysgolion yn cynnig amgylchedd diogel ac ysbrydoledig ar gyfer dysgu ac â chysylltiadau cryf gyda'u cymunedau. Mae dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth wedi'i ymestyn trwy ddefnydd creadigol o dechnolegau digidol a thrwy gyrchu adnoddau'r ddinas a'i hamgylchedd ehangach.

- **System ysgol sy'n gwella ei hun**

Mae ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb a rennir gyda'r Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru ar gyfer sicrhau'r canlyniadau gorau i'r holl ddysgwyr ledled y ddinas. Mae cydweithredu rhwng ysgolion yn adeiladu'r capasiti ar gyfer gwelliant ar y cyd ar draws y system.

- **Ysgolion a Chaerdydd mewn partneriaeth**

Mae gan ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar gysylltiadau cryf gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a gyda busnesau a mentrau yn rhanbarth y ddinas. Mae teuluoedd a chyflogwyr yn rhoi gwerth ar addysg ac yn gweithio'n agos ag ysgolion i gyfrannu at gyflawniad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc.







# Nod:

## Canlyniadau gwych i bob dysgwr

Mae gennym ddisgwyliadau uchel i'n holl ddysgwyr ac rydym yn sicrhau cyrhaeddiad uchel a lles cadarnhaol i bawb. Mae rhwystrau i ddysgu yn cael eu goresgyn i sicrhau nad oes unrhyw blentyn neu berson ifanc yn cael ei 'adael y tu ôl'. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg a diddorol. Mae ffocws ar addysgu o ansawdd uchel wrth wraidd bob ysgol. Defnyddir asesiadau i ddatblygu dysgu ac i sicrhau atebolrwydd agored a chlir yn y system addysg.

**Pam bod hyn yn bwysig**

Mae safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn ysgolion Caerdydd yn gwella'n gyflymach nag yr oeddent yn flaenorol a nifer ohonynt ar gyfradd gyflymach na gweddill Cymru. Yn 2015 ymerwyd cam mawr ymlaen o ran yr holl fesurau bron â bod ond rydym eisiau gweld gwelliannau pellach o ran perfformiad. Nid yw canlyniadau ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn ddigon uchel eto, yn enwedig ar gyfer dysgwyr agored i niwed sy'n wynebu heriau a rhwystrau i ddysgu a chyrhaeddiad llwyddiannus.

Mae cyrhaeddiad academaidd yn ffactor pwysig o ran cynnydd a chyfleoedd bywyd pobl ifanc yn y dyfodol. Drwy sicrhau canlyniadau rhagorol i'r holl ddysgwyr, gallwn sicrhau bod ein plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i siapio eu bywydau a chwarae rôl lawn mewn cymdeithas. Yn y ffordd hon rydym hefyd yn buddsoddi yn nyfodol ein dinas, sy'n ddibynnol ar ddinasyddion y dyfodol sy'n gallu cystadlu a ffynnu yn y byd modern.

**Cynllun Gweithredu**

**I gyflawni llwyddiant, bydd Caerdydd yn:**

- Canolbwyntio ar addysgu o ansawdd ym mhob ystafell ddosbarth, bob dydd i wella canlyniadau a sicrhau cynnydd gwell i'r holl ddisgyblion.
- Defnyddio fframwaith rhaglen 'Successful Futures' y llywodraeth i siapio llwybrau cwricwlwm sy'n briodol i anghenion dysgwyr, ac sy'n hyblyg ac yn addas ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gweithredu llwybrau newydd i ddysgwyr mewn perygl.
- Herio a chefnogi ysgolion a phartneriaid ymhellach i wella canlyniadau addysgol i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni, yn enwedig, plant sy'n derbyn gofal, disgyblion o deuluoedd incwm isel, disgyblion â Saesneg fel ail iaith a'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Darparu, addasu a gweithredu'r diwygiadau cenedlaethol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Datblygu'r defnydd o asesiadau ymhellach i gyflymu dysgu a thanategu arferion ac atebolrwydd proffesiynol cryf.
- Cydnabod, hwyluso ac annog amrywiaeth eang o gyfleoedd i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn nysgu eu plant.
- Datblygu cyfleoedd a dulliau pellach i geisio barn plant a phobl ifanc wrth ddatblygu gwasanaethau.



**Mesurau llwyddiant**
**Dros y 5 mlynedd nesaf nod Caerdydd yw:**

- Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn y meysydd dysgu gorfodol yn y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd blwyddyn 2.
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn y pynciau craidd sef Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 ar ddiwedd blwyddyn 6.
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2+ (5 TGAU A* - C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (blwyddyn 11).
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n pontio'n llwyddiannus i addysg barhaus, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd y cyfnod addysg statudol (blwyddyn 11) ac ar ddiwedd blwyddyn 13.
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn y pynciau craidd sef Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 ar ddiwedd blwyddyn 6.
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2+ (5 TGAU A* - C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (blwyddyn 11).
- Gwella lefelau cyrhaeddiad dysgwyr sy'n agored i niwed yn unol â'u gofynion, anghenion a dyheadau unigol. Yn enwedig:
  - Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
  - Disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref
  - Plant sy'n Derbyn Gofal
  - Disgyblion sy'n dechrau yn ysgolion Caerdydd gyda Saesneg fel ail iaith
- Cynnal lefelau presenoldeb mewn ysgolion sy'n uwch na chyfartaledd Cymru

**Mae Atodiad 1 yn nodi ein safle gwaelodlin a thargedau ar y mesurau hyn.**



# Nod:

## Gweithlu o ansawdd uchel

Rydym yn denu'r bobl orau i arwain, gweithio a llywodraethu ein hysgolion a'n sefydliadau addysg. Rydym yn recriwtio, cadw a datblygu staff ar bob lefel ac yn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o athrawon, ymarferwyr ac arweinwyr yn gweithio yng Nghaerdydd.

**Pam bod hyn yn bwysig**
Mae systemau addysg sy'n rhagori yn gallu recriwtio graddedigion o ansawdd uchel a'u hyfforddi a'u cefnogi i ddod yn ymarferwyr ystafell ddosbarth o'r radd flaenaf. Rydym hefyd yn gwybod mai'r camau sy'n cael yr effaith fwyaf ar wella canlyniadau dysgwyr yw datblygiad athrawon – o ran eu gwybodaeth am y pwnc a'u harbenigaeth yn yr ystafell ddosbarth. Mae cynorthwywyr addysgu hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau dysgu effeithiol. Mae ysgolion da yn defnyddio arbenigaeth ystod ehangach o staff cymorth arall

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod galluogi penaethiaid ac arweinwyr uwch eraill i gael yr amser, sgiliau ac adnoddau i ganolbwyntio ar arwain dysgu, yn hanfodol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae recriwtio athrawon a phenaethiaid yn dipyn o her ac mae angen i ni fod yn arloesol gyda dulliau newydd.



**Cynllun Gweithredu**
**I gyflawni llwyddiant, bydd Caerdydd yn:**

- Lansio dulliau recriwtio mwy arloesol i hyrwyddo gwerth gweithio yng Nghaerdydd a llenwi'r bylchau yn sectorau allweddol y gweithlu addysg.
- Creu llwybrau cynnydd gyrfaol clir a gefnogir drwy gymorth a datblygiad priodol.
- Darparu hyfforddiant a datblygu proffesiynol o ansawdd uchel, mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddiant addysg uwch, sy'n galluogi staff i gefnogi dysgu rhagorol a gwella canlyniadau dysgwyr.
- Defnyddio dulliau dysgu a hyfforddiant a arweinir drwy ymholiadau fel ffordd o weithio ar draws ysgolion yn y ddinas.
- Canfod a datblygu arweinwyr ysbrydoledig a newydd a chynnig llwybrau i rolau arwain, gan gynnwys penaethiaid gweithredol.
- Cynyddu capasiti arwain drwy leoli a chefnogi arweinwyr i arwain ar draws ysgolion a thrwy leihau'r amser y mae penaethiaid yn ei dreulio ar reoli swyddogaethau cymorth mewn ysgolion.
- Codi proffil y rolau a chwaraeir gan staff nad ydynt yn addysgu a chreu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar bob lefel.



## Mesurau llwyddiant

**Dros y 5 mlynedd nesaf nod Caerdydd yw:**

- Cynyddu nifer yr athrawon ac ymarferwyr ‘rhagorol’ yng Nghaerdydd, yn enwedig yn y meysydd hynny o’r cwricwlwm lle mae angen gwella canlyniadau dysgwyr.
- Cynyddu capasiti arwain ysgolion Caerdydd, i ymateb i anghenion amrywiol a newidiol addysg yn rhanbarth y ddinas.
- Gweithredu modelau arwain ysgol newydd sy’n galluogi Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr profiadol i oruchwylio a chefnogi’r rheiny a benodir i rôl fel Pennaeth Ysgol, un ai fel rhan o ffederasiwn neu drwy gytundeb â chyrff llywodraethu ysgolion cysylltiedig.
- Creu rhwydwaith o Arweinwyr Gweithredol ledled y ddinas sy’n gallu cefnogi ysgolion eraill ac arwain ffederasiynau a grwpiau gwella ysgol.
- Cynnwys yr holl athrawon mewn dysgu a arweinir gan ymholiadau mewn perthynas â’r blaenoriaethau gwella ar gyfer eu hysgol a/neu eu partneriaeth/ffederasiwn.
- Gwerthuso’n fwy effeithiol gyfraniad y staff nad ydynt yn addysgu o ran gwella ysgol a datblygu’r capasiti i wella canlyniadau addysgu a dysgu.



# Nod:

## Amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif

Mae nifer o leoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc sy'n diwallu anghenion poblogaeth gynyddol a newidiol Caerdydd. Mae ysgolion yn cynnig amgylchedd diogel ac ysbrydoledig ar gyfer dysgu ac â chysylltiadau cryf gyda'u cymunedau. Mae dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth wedi'i ymestyn trwy ddefnydd creadigol o dechnolegau digidol a thrwy gyrchu adnoddau'r ddinas a'i hamgylchedd ehangach.

**Pam bod hyn yn bwysig**
Mae'r twf sylweddol o ran poblogaeth yng Nghaerdydd, ynghyd ag ystâd addysgol hen yn peri heriau gwirioneddol i gynnal digon o leoedd ysgol mewn amgylcheddau dysgu da ledled y ddinas. Rhwng 2006 a 2016, mae tua £110 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn adeiladau newydd ac mewn uwchraddio'r rhai presennol. Bydd buddsoddiad pellach yn cael ei sicrhau i ddiwallu'r twf presennol, disodli adeiladau anaddas ac, yn y tymor hirach, i ddiwallu anghenion datblygiadau tai mawr.

Y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, mae'r ddinas ei hun yn cynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer dysgu ac rydym am weld yr holl bobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd chwaraeon, diwylliannol ac amgylcheddol Caerdydd lle bynnag maen nhw'n byw.

**Cynllun Gweithredu**
**I gyflawni llwyddiant, bydd Caerdydd yn:**

- Cynnal a gwella'r ystâd ysgolion bresennol i sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteisio ar amgylcheddau dysgu da.
- Darparu ysgolion newydd cynaliadwy o ansawdd uchel, yn y sector cynradd ac uwchradd, sy'n hyblyg, yn addas ar gyfer y dyfodol ac sy'n galluogi addysgu o ansawdd ym mhob ystafell ddosbarth.
- Sicrhau cydbwysedd o ran darpariaeth AAA ledled y ddinas er mwyn i ni sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod gennym ysgolion lleol ar gyfer plant lleol.
- Parhau i ddarparu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Gaerdydd.
- Buddsoddi mewn technoleg newydd ar gyfer dysgu, adeiladu ar yr arferion mwyaf effeithiol sydd eisoes ar waith, i ddarparu ffyrdd arloesol o ymgysylltu, ysgogi a helpu plant a phobl i ddysgu.
- Sicrhau'r gwerth gorau o'r adnoddau ariannol sydd ar gael drwy groesawu dulliau caffael arloesol a dulliau dylunio safonol.
- Creu dull Ysgolion â Ffocws Cymunedol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm trwy ymglymiad lleol a gall y defnydd o adeiladau ysgol fod o fudd i'r gymuned ehangach yng Nghaerdydd.



**Mesurau llwyddiant**
**Dros y 5 mlynedd nesaf nod Caerdydd yw:**

- Gwella'n sylweddol amgylcheddau dysgu'r ystâd ysgolion bresennol trwy weithredu'r cynllun rheoli asedau blynyddol, gan sicrhau gwerth gorau ar gyfer adnoddau ariannol.
- Cwblhau'r gwaith cynllunio ar gyfer y gyfres nesaf o flaenoriaethau ar gyfer rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn cynnwys ffocws ar ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig ledled y ddinas, erbyn 31 Mawrth 2017.
- Cynnig proses Derbyn i Ysgolion cydlynol, gyda'r sector wirfoddol a gynorthwyir, sy'n cynnig darlun clir i rieni/gofalwyr o'r dewisiadau o ran lleoedd ysgol sydd ar gael iddyn nhw a'r tebygolrwydd o sicrhau eu dewis cyntaf.
- Cynyddu nifer y disgyblion sy'n sicrhau lle ysgol sy'n diwallu anghenion unigol, yn unol â'u dewis cyntaf lle y bo'n briodol.
- Cyflwyno dull ysgolion â Ffocws Cymunedol, ar draws holl Ysgolion Caerdydd, sy'n cynnig ystod o weithgareddau a chyfleoedd i gyfoethogi bywydau plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach; a chyfrannu at amcanion cymunedol gan gynnwys cydlyniad lleol, cynaliadwyedd ac adfywio.
- Datblygu dulliau i ddysgu yng nghyd-destun y ddinas gyfan sy'n sicrhau cyfranogiad llawn pob person ifanc ym mywyd Caerdydd, trwy gysylltiadau busnes, chwaraeon a diwylliannol.
- Cwblhau adeiladu Ysgol Uwchradd newydd yn nwyrain y ddinas, mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro erbyn yr hydref 2017.
- Cwblhau adeiladu tair ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad erbyn y gwanwyn 2018.
- Cwblhau adeiladu Ysgol Uwchradd newydd yng ngorllewin y ddinas erbyn Medi 2018.



# Nod:

## System ysgol sy’n gwella ei hun

Mae ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb a rennir gyda’r Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canol De Cymru ar gyfer sicrhau'r canlyniadau gorau i’r holl ddysgwyr ledled y ddinas. Mae cydweithredu rhwng ysgolion yn adeiladu’r capasiti ar gyfer gwelliant ar y cyd ar draws y system.

**Pam bod hyn yn bwysig**

Tra bo’r system ysgolion yn parhau i gynyddu, ein huchelgais yw sicrhau ymdeimlad o ffydd yn ein hysgolion, ein harweinwyr a’n llywodraethwyr ysgol a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi ac yn derbyn yr adnoddau sydd eu hangen i arwain gwelliant. Yn hytrach na bod gwelliant ysgol yn dod o’r awdurdod lleol neu ymgynghorwyr allanol, y nod yw creu system lle mae ysgolion yn gallu cefnogi ei gilydd ac ymrwymo i rannu staff ac arbenigaeth.

Mae gweithio yn y ffordd hon yn galluogi ysgolion i ddysgu gan ei gilydd a manteisio ar gryfderau ei gilydd a helpu i symud gwybodaeth o ran yr hyn sy’n gweithio ac arfer gorau o gwmpas y system yn gyflymach. Mae Michael Fullan wedi ysgrifennu “Good collaboration reduces bad variation” ac mae hyn yn berthnasol o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion. Nid yw’r ffordd hon o weithio wedi’i chyfyngu i athrawon ac arweinwyr ysgol ond mae hefyd yn berthnasol i lywodraethwyr ysgol ac aelodau eraill o staff sy’n gweithio mewn ysgolion.

**Cynllun Gweithredu**

**I gyflawni llwyddiant, bydd Caerdydd yn:**

- Parhau i weithio gyda’r Consortiwm a’r Esgobaethau i ddatblygu capasiti’r system ysgol ymhellach i allu gwella ei hun trwy Her Canol De Cymru.
- Galluogi ac annog llywodraethwyr, gan gynnwys y rheiny o fewn y grŵp gwella ysgolion i drefnu hyfforddiant ar y cyd, rhannu ffyrdd o weithio ac arsylwi a herio arferion ei gilydd.
- Cynnwys yr holl ysgolion mewn Grŵp Gwella Ysgolion neu rwydwaith gwella ysgolion achrededig.
- Hyrwyddo twf clystyrau a ffederasiynau ysgolion i adeiladu capasiti arwain a galluogi penaethiaid i ganolbwyntio ar arwain addysgu a dysgu o ansawdd uchel.
- Cryfhau ymgysylltiad ysgol i ysgol trwy fentrau megis grwpiau dysgu a arweinir gan ymholiadau, adolygiadau cyfoedion rhwng ysgolion a thrwy gynnig dewis o gymorth ysgol i ysgol ar gyfer ysgolion sy’n cael trafferthion.
- Sicrhau bod her, effaith a gwerthuso yn rhan o weithgarwch ysgol i ysgol trwy ddefnydd agored a thryloyw o ddata.





**Mesurau llwyddiant**
**Dros y 5 mlynedd nesaf nod Caerdydd yw:**

- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yng nghategori Estyn.
- Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cael eu categoreiddio fel gwyrdd gan Lywodraeth Cymru yn y broses categoreiddio cenedlaethol blynyddol.
- Cynyddu nifer yr ysgolion lle mae Safonau'n cael eu barnu gan Estyn i fod o safon dda neu ragorol.
- Sicrhau canlyniadau dysgwyr gwell yn ysgolion uwchradd Her Cymru sydd o leiaf yn unol â chyfartaledd Cymru.
- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn rhedeg ar gyllidebau diffygiol yn gyson.
- Sicrhau bod yr holl ysgolion cynradd yn perthyn i glwstwr neu ffederasiwn busnes yn ogystal â'u Grŵp Gwella Ysgol.
- Sicrhau bod yr holl ysgolion uwchradd wedi'u paru ag ysgol arall, un ai o fewn y consortiwm neu'r ddinas i gefnogi arweinyddiaeth o ran addysgu a dysgu.
- Cyflwyno model cyfoedion a gytunwyd sy'n gweithredu ar hyd a lled y ddinas, yn seiliedig ar defnydd a renir o ddata a mesurau perfformiad.



# Nod:

## Ysgolion a Chaerdydd mewn partneriaeth

Mae gan ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar gysylltiadau cryf gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a gyda busnesau a mentrau yn y ddinas. Mae teuluoedd a chyflogwyr yn rhoi gwerth ar addysg ac yn gweithio'n agos ag ysgolion i gyfrannu at gyflawniad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

**Pam bod hyn yn bwysig**

Rydyn ni'n gwybod bod addysg o ansawdd uchel yn hanfodol i wella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc, ond rydyn ni hefyd yn gwybod bod ffactorau y tu allan i'r ysgol yn cael effaith ar lefelau cyrhaeddiad a lles.

Gall amgylchedd diogel, teuluoedd sy'n annog dysgu ac uchelgais a pholisïau sy'n mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd chwarae rhan allweddol o ran helpu pobl ifanc i gyflawni llwyddiant.

Gall partneriaethau rhwng ysgolion a busnesau/cyflogwyr fod o fudd i'r ddwy ochr yn cysylltu busnesau gyda chymunedau ac ysgolion gyda'r economi ehangach. A chryfhau'r system llywodraethu ysgolion.

**Cynllun Gweithredu**

**I gyflawni llwyddiant, bydd Caerdydd yn:**

- Gweithredu 'Ymrwymiad Caerdydd' i Ymglymiad a Chynnydd Pobl Ifanc i sicrhau dyfodol cadarnhaol i'r holl bobl ifanc y tu hwnt i addysg statudol.
- Parhau i annog ystod eang o weithwyr proffesiynol i ymgymryd â'r rôl llywodraethwr ysgol i gryfhau modelau llywodraethu ar draws yr holl sectorau.
- Galluogi ysgolion i ymgysylltu gyda ac elwa o Strategaeth Cymorth Cynnar Caerdydd, gan sicrhau bod asiantaethau statudol a gwirfoddol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymyrryd yn gynnar i gefnogi teuluoedd.
- Cynnal a lle bo'n bosibl, ymestyn buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar trwy Dechrau'n Deg a rhaglenni eraill i sicrhau bod plant o gymunedau economaidd difreintiedig yn cael dechrau da mewn bywyd.
- Cryfhau perthnasau rhwng ysgolion a'r sector busnes i ddarparu dewis o gyfleoedd i bartneriaid busnes gefnogi ysgolion, tra'n sicrhau manteision busnes sy'n ychwanegu gwerth i'w nodau ac uchelgeisiau unigol.
- Datblygu a threialu modelau partneriaeth rhwng ysgolion a sectorau sgiliau penodol yn yr economi leol.





**Mesurau llwyddiant**
**Dros y 5 mlynedd nesaf nod Caerdydd yw:**

- Gan weithio gyda'r Esgobaethau, cryfhau modelau llywodraethu ysgolion ymhellach, gan gynyddu nifer y llywodraethwyr ysgol a'r ystod o sgiliau a gynigir ganddynt i helpu i sicrhau gwelliannau.
- Gwella ystod sgiliau plant sy'n dechrau yn yr ysgol fel y mesurir gan y proffil cyfnod sylfaen newydd, mewn partneriaeth â theuluoedd, cymunedau, iechyd a'r sector blynyddoedd cynnar.
- Sicrhau bod gan yr holl ysgolion bartner busnes clir, gydag amcanion a rennir pwrpasol.
- Sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn gallu manteisio ar gyngor gyrfaol, canllawiau a chyfleoedd profiad gwaith.
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n pontio'n llwyddiannus i'r byd gwaith.
- Cynnig ystod ehangach o opsiynau cwricwlwm amgen sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed a all gael anawsterau wrth ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.





# Symud ymlaen

Mae hon yn strategaeth uchelgeisiol oherwydd mae angen y system addysg orau posibl ar Gaerdydd. Mae ffyniant a iechyd cymdeithasol y ddinas yn y dyfodol yn dibynnu ar hyn.

Mae Caerdydd yn ddinas ddeinamig sy'n newid yn gyflym. Mae'r hen ddiwydiannau wedi mynd, ac wedi cael eu disodli gan economi fwy amrywiol a newidiol.  Fel dinas borthladd, mae Caerdydd wastad wedi bod yn uchelgeisiol, yn agored i syniadau newydd, yn groesawgar ac yn barod i newid ac addasu. Mae'r rhinweddau hyn yn bwysicach nag erioed nawr. Bydd pobl ifanc yn ein hysgolion nawr yn wynebu dyfodol a fydd yn siŵr o fod yn wahanol i'r hyn a ragwelwn nawr.

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod y gwelliannau a wnaed yn y blynyddoedd diweddar ond mae hefyd yn nodi'n glir y disgwyliad bod angen gwneud mwy, a bod hynny'n bosibl. Mae awydd gwirioneddol ar draws y system ysgol, mewn cymunedau ac ar draws busnesau, y celfyddydau a'r sectorau gwirfoddol yng Nghaerdydd i adeiladu ar y gorau, p'un a bod hynny eisoes yma yn ein dinas, neu rywle arall yn y DU neu ymhellach i ffwrdd.

Mae'r weledigaeth newydd hon ar gyfer addysg yng Nghaerdydd yn gosod nodau uchelgeisiol. Ond er eu bod yn uchelgeisiol, maen nhw hefyd yn realistig. Mae pobl wrth wraidd y strategaeth hon, dysgwyr ac addysgwyr a phawb sy'n gweithio i gefnogi dysgu. Mae'r strategaeth yn rhoi ffocws amlwg ar recriwtio, a datblygu'r rheiny sy'n gweithio yn y system ysgol. Mae hefyd yn cydnabod bod adnoddau'n gyfyngedig, ac felly mae ffocws gwirioneddol ar sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, ac zo ran datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n ein galluogi i wella canlyniadau gyda llai o adnoddau.

Drwy weithio ynghyd gallwn wneud Caerdydd 2020 yn realiti. Gallwn alluogi'r bobl ifanc yn ein dinas i gyflawni eu potensial beth bynnag fo hynny. Gallwn gefnogi a datblygu eu llwyddiant a llwyddiant eu hysgolion ymhellach, yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Gallwn chwarae ein rhan i adeiladu dinas sy'n barod i dderbyn heriau'r dyfodol.







# Atodiad Un – Mesurau Perfformiad

**Canlyniadau i Ddysgwyr**
Mae'r gyfres graidd o fesurau yn darparu fframwaith cychwynnol i olrhain perfformiad yn erbyn y canlyniadau dymunol a nodir yn y strategaeth hon dros y 18 mis nesaf. Caiff hyn ei ddatblygu a'i ymestyn wrth i ni symud ymlaen ar y cyd gyda'r newidiadau i fesurau cyrhaeddiad academaidd ac adroddiadau perfformiad ysgolion sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru.

| Mesur | Safle Gwaelodlin Caerdydd Blwyddyn Academaidd 2014/15 | Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2014/15 | Targed Caerdydd Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
|---|---|---|---|
| Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn y meysydd dysgu gorfodol yn y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd blwyddyn 2. | 86.73 % | 86.80 % | 88.6 % |
| Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn y pynciau craidd sef Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 ar ddiwedd blwyddyn 6. | 87.76 % | 87.74 % | 93.09 % |
| Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2+ (5 TGAU A* - C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (blwyddyn 11). | 59.30 % | 57.95 % | 67.8 % |
| Nifer y bobl ifanc sy'n pontio'n llwyddiannus i addysg barhaus, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd y cyfnod addysg statudol (blwyddyn 11) ac ar ddiwedd blwyddyn 13. | Blwyddyn 11: 95.5 % (4.5 % Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant)<br>Blwyddyn 13: 97.04 % (2.96 % Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant) | Blwyddyn 11: 97.2 % (2.8 % Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant)<br>Blwyddyn 13: 96.24 % (3.76 % Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant) | Blwyddyn 11: 97 % (3 % Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant)<br>Blwyddyn 13: 97 % (3 % Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant) |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig yn y pynciau craidd sef Mathemateg, Saesneg neu Gymraeg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 ar ddiwedd blwyddyn 6. | 76.74 % | 75.10 % | 85 % |

| Mesur | Safle Gwaelodlin Caerdydd Blwyddyn Academaidd 2014/15 | Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2014/15 | Targed Caerdydd Blwyddyn Academaidd 2016/17 |
|---|---|---|---|
| Canran y disgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim sy'n cyflawni'r Trothwy Lefel 2+ (5 TGAU A* - C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (blwyddyn 11). | 32.23 % | 31.63 % | 50 % |
| Canran Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn y canlynol: | | | |
| Y Cyfnod Sylfaen | 75 % | 58 % (2014) | 85 % |
| Cyfnod Allweddol 2 | 56 % | 59 % (2014) | 70 % |
| Cyfnod Allweddol 4 – Lefel 2+ | 17.1 % | 17.1 % (2014) | 25 % |
| Canran disgyblion â Saesneg fel ail iaith sy'n cyflawni'r lefelau disgwyliedig yn y canlynol: | | | |
| Y Cyfnod Sylfaen | 82.79 % | 81.7 % | 84 % |
| Cyfnod Allweddol 2 | 83.59 % | 82.6 % | 88 % |
| Cyfnod Allweddol 4 – Lefel 2+ | 59.64 % | 57.7 % | 66 % |
| Lefelau Presenoldeb mewn Cynradd: | 95.2 % | 94.9 % | 95.5 % |
| Uwchradd | 93.9 % | 93.9 % | 95.5 % |

